CARRINGTON, THOMAS ('TOM'), ('Pencerdd Gwynfryn '; 1881 - 1961), cerddor ac argraffydd

Enw: Thomas Carrington
Ffugenw: Pencerdd Gwynfryn
Dyddiad geni: 1881
Dyddiad marw: 1961
Priod: Mildred Mary Carrington (née Jones)
Rhiant: Winifred Carrington (née Roberts)
Rhiant: John Carrington
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cerddor ac argraffydd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Eisteddfod; Cerddoriaeth; Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: Huw Williams

Ganwyd yn y Gwynfryn, Bwlch-gwyn, ger Wrecsam, Sir Ddinbych, 24 Tachwedd 1881, yn fab i John Carrington (disgynnydd i un o'r teuluoedd a ymfudodd o Gernyw erbyn dechrau'r 19eg ganrif i weithio i'r Mwynglawdd, sir Ddinbych) a Winifred (ganwyd Roberts), brodor o Fryneglwys. Treuliodd flynyddoedd cyntaf ei oes yn y Gwynfryn, a'i addysgu yn ysgol Bwlch-gwyn. Ar ôl gadael yr ysgol fe'i prentisiwyd yn argraffydd gyda chwmni Hughes a'i Fab, Wrecsam. Priodod yn 1905 â Mildred Mary Jones, Minera, a symud i fyw i Goed-poeth, lle y bu'n dilyn ei grefft fel argraffydd ac fel cyhoeddwr cerddoriaeth.

O'i blentyndod cynnar yr oedd yn amlwg fod ganddo ddawn arbennig fel cerddor. Yn naw oed fe'i penodwyd yn organydd gyda'r Methodistiaid Wesleaidd yn y Gwynfryn, a bu yn y swydd honno am oddeutu 15 mlynedd gan astudio cerddoriaeth yn ei oriau hamdden trwy gyfrwng nodiant y Tonic Sol-ffa a chyda Morton Bailey yn Wrecsam. Mewn cyfnod diweddarach treuliodd dros hanner canrif yn organydd yn eglwys Rehoboth (EF), Coed-poeth, a dod yn ffigur pur amlwg fel beirniad eisteddfod, arweinydd a chyfansoddwr. Bu'n olygydd cerdd *Y Winllan* a'r *Eurgrawn*, ac ef oedd ysgrifennydd y pwyllgor a ofalai am gynnwys cerddorol *Llyfr emynau a thonau y Methodistiaid Calfinaidd a Wesleaidd* (1929). Yr oedd hefyd yn eisteddfodwr pybyr, a gwasanaethodd fel ysgrifennydd cyffredinol Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 1933. Ei brif weithiau cerddorol yw *Concwest Calfari* (anthem SATB 1912), *Hen weddi deuluaidd fy nhad* (unawd contralto/bariton 1910) a *Gwynfryn* a *Bryn-du* (tonau cynulleidfaol). Ef hefyd yw awdur y llawlyfr *Yr Ysgol Gân* (Gee, 1957) a *Doniau Da* (1955) sy'n cynnwys nifer o'i donau a'i ganiadau gwreiddiol, yn ogystal â threfniadau ganddo o emyn-donau.

Bu farw yn ei gartref yng Nghoedpoeth, 6 Mai 1961. Yn 1963 dadorchuddiwyd llechen i'w gofáu yn eglwys Rehoboth, Coed-poeth.

Awdur

Huw Williams, (1922 - 2002)

Ffynonellau

Who's who in Wales (1937)

Y Cymro, 29 Hydref 1959, 18 Mai 1961 a 31 Hydref 1963

Yr Eurgrawn Wesleyaidd, Awst 1961

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Thomas Carrington

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20821219

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i

gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu